

COFNODION Y CYFARFOD

Dyddiad: Dydd Mawrth Mai 1af 2001
Amser: 9.00am
Lleoliad: Ystafell A3.10

Yn bresennol: Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol (Cadeirydd)
Andrew Davies, Trefnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Marion Stapleton, Ysgrifenyddes Breifat y Trefnydd
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Dirprwy Lywydd. Roedd Kirsty Williams wedi cytuno i gadeirio'r Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 13.4.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

BC 111-01 (terfynol)

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

BC 119-01 (drafft)

2.2 Cyflwynwyd copi drafft o'r cofnodion i'r Pwyllgor. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd Marie Knox mai'r cytundeb dros dro i gynnal cyfarfod llawn ychwanegol ar 27 Mehefin (pe bai Etholiad Cyffredinol yn cael ei

gynnal ar 7 Mehefin) oedd yr opsiwn lleiaf trafferthus o hyd, o safbwynt aildrefnu busnes y pwyllgorau. Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r cynnig hwn. **Gweithredu: Marie Knox i roi trefniadau ar waith os oes angen.**

3.2 Nododd y Cadeirydd y byddai'r materion yn codi o dan **baragraff 3.2 a pharagraff 3.4** yn cael eu cymryd o dan eitem 5 ar yr agenda ynghyd â phapur BC141-00.

3.3 **Paragraff 3.5** – Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi anfon nodyn at ei gydweithwyr yn y Cabinet ar arfer cwrteisi wrth ymweld ag etholaethau. Nododd Jocelyn Davies fod y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweinidogion eisoes yn dweud y dylid ymestyn y cwrteisi hwn i Aelodau etholaeth a rhanbarth y Cynulliad, a'i barn hi oedd y bu trafodaethau'r Pwyllgor yn wastraff amser. Byddai'r mater hwn yn awr yn cael ei ddatrys trwy ddsbarthu'r nodyn.

3.4 **Paragraff 9.1** – Nododd Marion Stapleton fod adroddiad y Pwyllgor Busnes ar ddiwygio Rheolau Sefydlog 6.3 a 6.26 (Cwestiynau Llafar i'r Trefnydd) wedi'i osod. Roedd y cynnig wedi'i baratoi a byddai'n cael ei gyflwyno er mwyn penderfynu arno ar 17 Mai. Byddai'r set cyntaf o gwestiynau i'r Trefnydd yn cael eu holi ar 21 Mehefin. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Cabinet**

4. Is-ddeddfwriaeth

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC121-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2001

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC122-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau'r Gwasanaeth lechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Diwygio) (Cymru) 2001

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC123-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC124-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Gorchymyn (Cymeradwyo) Cynllun (Amrywio) Ardollau Grawnfwydydd Cartref 2001

4.5 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC125-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001

4.6 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC126-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jenny Randerson, Gweinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Nododd Nerys Arch mai'r Weithdrefn safonol a fwriadwyd ar gyfer y Gorchymyn hwn, ac nid y weithdrefn garlam fel oedd wedi'i nodi ar y dudalen flaen. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd felly eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001

4.7 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC127-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.

4.8 Gofynnodd Jocelyn Davies a oedd lle i'r Pwyllgor Addysg ystyried y Gorchymyn cyn cael dadl yn y cyfarfod llawn. Dywedodd Nerys Arch y byddai'n edrych a fyddai modd gwneud hyn ai peidio, gan ystyried yr amserlen ar gyfer gwneud y Gorchymyn. Byddai hefyd yn gwneud ymholiadau ynghylch cwestiwn Marion Stapleton p'un a gafodd Aelodau'r Cynulliad eu cynnwys yn y broses ymgynghori ar gyfer y Gorchymyn. **Gweithredu: Nerys Arch i edrych a oes lle i bwyllgor pwnc ystyried y Gorchymyn drafft ac edrych i ba raddau yr ymgynghorwyd â'r Aelodau, ac adrodd yn ôl cyn cyfarfod yr wythnos nesaf.**

Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Cynigion a Gorchymynion Drafft) (Corfforaethau Addysg Bellach) (Cymru) 2001

4.9 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC128-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Gorchymyn Grantiau Tai (Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2001

4.10 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC129-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2001

4.11 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC130-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodwyd) (Diwygio) (Cymru) 2001

4.12 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC131-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001

4.13 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC132-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2001

4.14 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC133-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

4.15 Holodd y Cadeirydd beth oedd ystyr "Ymgynghori â Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth" ym mharagraff 6 y memorandwm esboniadol. Teimlai nad oedd llythyr a dderbyniwyd gan y Pwyllgor, ac nad anfonwyd ymateb iddo, yn cyfrif fel ymgynghori priodol, o'i gymharu â dadl ar y Gorchymyn mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu o leiaf gynnwys y Gorchymyn fel eitem wreiddiol ar agenda'r Pwyllgor hwnnw. Cytunwyd y dylid cofnodi ar y dudalen flaen, yn y dyfodol, nad ymgynghorwyd â'r pwyllgor pwnc mewn achosion o'r fath er mwyn osgoi camarwain y Rheolwyr Busnes. **Gweithredu: Nerys Arch i nodi ar gyfer tudalennau blaen yn y dyfodol**

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001

4.16 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC134-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y dylai ddilyn y weithdrefn safonol.

O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.

4.17 Gofynnodd y Cadeirydd i Nerys Arch esbonio a oedd holl gynhyrchwyr Cymru'n cael eu cynnwys yn y meini prawf ar gyfer "Rhanbarthau Penodedig" o dan delerau'r Rheoliadau, ac a oedd perygl y byddai rhai cynhyrchwyr yn cael eu hepgor, yn annheg, o'r gofrestr gwin o ansawdd. Byddai Nerys Arch yn ceisio esboniad ac yn rhoi adroddiad yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Nerys Arch i adrodd yn ôl ar y meini prawf ar gyfer "Rhanbarthau Penodedig" o dan delerau'r Rheoliadau.**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001

4.18 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC135-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol. **O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.**

Rheoliadau Cig (Pwerau Gorfodi Ehangach) (Cymru) 2001

4.19 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC136-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn safonol. **O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.**

Gorchymyn Grawnfwydydd Cartref (Cyfradd Ardollau) 2001

4.20 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC143-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Cadeirydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc, a'u bod yn cytuno y dylai ddilyn y weithdrefn garlam. **O ganlyniad, penderfynodd y Llywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc.**

4.21 Nododd Nerys Arch y byddai nifer fawr o ddarnau is-ddeddfwriaeth yn parhau i ddod gerbron y Pwyllgor dros y 2-3 wythnos nesaf, gyda hyd at 20 Gorchymyn, o bosibl, i'w hystyried mewn un cyfarfod. Fodd bynnag, roedd yn gobeithio y gellid arbed amser trwy grwpio Gorchymynion i'w hystyried gyda'i gilydd. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr anawsterau yr oedd Rheolwyr Busnes yn eu

hwynebu wrth ymgynghori ag Aelodau ynghylch craffu ar is-ddeddfwriaeth, gan ofyn a ellid rhoi mwy o rybudd i Reolwyr Busnes ynghylch y Gorchmynion a oedd ar fin cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes. Dywedodd Nerys Arch y byddai Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn gwneud pob ymdrech i roi cymaint o rybudd ag y bo modd i Reolwyr Busnes am is-ddeddfwriaeth arfaethedig. Ychwanegodd y Trefnydd bod rhai Gweinidogion wedi ymgymryd i baratoi rhaglen o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer eu pwyllgorau pwnc fel y gallai Aelodau fod yn ymwybodol o'r cynigion cyn gynted â phosibl. Dywedodd y byddai'n trafod â'i gydweithwyr yn y Cabinet y posibilrwydd o wneud hyn fel rhan o'r drefn arferol.

Gweithredu: Y Trefnydd i drafod hyn gyda'r Cabinet

5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC171-01 a chytuno â'r cynnig i roi'r gorau i'r arfer o bostio dogfennau i We'r Siambr ar gyfer cynigion cyfansawdd, nad ydynt yn destun dadl.

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC138-01 a oedd yn argymhell trefn o rifo'r pwyntiau o fewn cynigion. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i roi cynnig ar y drefn hon dros y tymor nesaf, fel cyfnod prawf. **Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi gwybod i Aelodau a'u staff cymorth.**

5.3 Cyflwynodd Marion Stapleton bapur BC141-00, a oedd wedi'i baratoi mewn ymateb i bryderon a godwyd cyn y Pasg ynghylch rheoli'r broses o gyhoeddi is-ddeddfwriaeth y Cynulliad. Roedd yn gobeithio bod y wybodaeth am is-ddeddfwriaeth ar y Fewnrwyd yn haws i'w defnyddio ar ôl cael ei had-drefnu, a'i bod yn nodi'n glir bob cam o'r weithdrefn ar gyfer Gorchmynion o dan Reol Sefydlog 22. Roedd Jocelyn Davies yn croesawu'r modd yr ad-drefnwyd y wybodaeth. Teimlai y byddai'r cyswllt e-bost i'r Uned Fusnes er mwyn gwneud cyflwyniadau yn gwella'r broses graffu. Dywedodd y gellid gwella'r safle ymhellach trwy gofnodi arno p'un a oedd pob Gorchymyn eisoes wedi bod gerbron pwyllgor pwnc i'w ystyried ai peidio. Roedd William Graham hefyd yn croesawu'r gwelliannau, a gofynnodd a fyddai'r Uned Fusnes yn ystyried sylwadau pellach pe gwnaed rhai. Atebodd Marion Stapleton y byddai'r Uned Fusnes yn falch o ystyried cynigion ar gyfer gwella'r drefn ymhellach. Dywedodd y byddai'n trosglwyddo sylwadau'r Pwyllgor i'r Uned Fusnes ac i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

5.4 Dywedodd David Lambert y byddai, erbyn diwedd mis Awst, wedi casglu ynghyd restr gynhwysfawr o is-ddeddfwriaeth i'w chyhoeddi yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 30. Nododd Marion Stapleton fod y Cwnsler Cyffredinol yn cynnal archwiliad o weithdrefnau is-ddeddfwriaeth ochr yn ochr â hyn, ac y byddai'n cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Busnes. Nododd y Trefnydd ei fod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r Cwnsler Cyffredinol i drafod y materion hyn, a'i fod yn gobeithio bod y gwelliannau a wnaed yn ddiweddar yn y ffordd y caiff

gwybodaeth am is-ddeddfwriaeth ei chyflwyno yn dangos bod camau breision yn cael eu cymryd yn y maes cymhleth hwn.

6. Pwyllgorau

Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC 144-01 a chytuno i gymeradwyo'r cynnig i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Diwylliant ar 24 Mai.

7. Busnes y dyfodol

Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC139-01, a oedd yn rhoi manylion y busnes a gytunwyd ar gyfer yr wythnos. Hysbysodd y Trefnydd y Pwyllgor fod busnes cyfarfod llawn y prynhawn wedi newid yn sylweddol. Byddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn parhau i wneud datganiad ar y diweddaraf ynghylch effaith Clwy'r Traed a'r Genau, a byddai hefyd yn gwneud datganiad ar dreialon cnrydau GM yn Sir Benfro. Byddai'r Gweinidog lechyd yn gwneud datganiad ar yr achosion o'r diciâu yng Nghasnewydd mewn ymateb i gwestiwn brys.

7.2 Byddai'r datganiad arfaethedig gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (mewn ymateb i gwestiwn brys) ar gadw ceiswyr lloches yng ngharchar Caerdydd yn cael ei wneud ddydd lau. Byddai'r datganiad arfaethedig gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfleoedd hyfforddiant i weithwyr Corus a fyddai'n colli'u swyddi, hefyd yn cael ei wneud ddydd lau.

7.3 Eglurodd Marion Stapleton fod y cynnig i ethol Eleanor Burnham i Bwyllgor yn anghywir a'i fod wedi'i dynnu'n ôl. Byddai cynnig arall yn dod gerbron yr wythnos nesaf. Dywedodd y Trefnydd ei fod yn cynnig y dylid symud y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymchwiliad Philips i ddyddiad diweddarach oherwydd bod amser yn brin. Byddai hefyd yn siarad â Janice Gregory ynghylch symud ei dadl fer i ddydd lau gan na fyddai'r Gweinidog yn bresennol i ymateb yn nghyfarfod llawn y prynhawn yma.

7.4 Nododd Marion Stapleton na fyddai'r Datganiad ar Gymhorthion Gweithredu yn cael ei wneud ddydd lau. Gofynnodd William Graham pryd y byddai'r ddadl ar yr adroddiad Grant Arbennig yn cael ei chynnal. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n dod o hyd i amser ar gyfer y ddadl o fewn y pythefnos nesaf a rhoddodd sicrwydd y byddai mwy nag 20 munud yn cael eu neilltuo ar ei chyfer.

7.5 Dywedodd y Gweinidog y byddai Dadl Plaid Leiafrifol Plaid Cymru ar Grant Bloc Barnett, hefyd yn cael ei gymryd ddydd lau. Gohiriwyd y ddadl hon o 5 Ebrill. Mewn ymateb i ymholiad William Graham, dywedodd Jocelyn Davies nad gwelliant i newid diben y cynnig oedd y gwelliant a gyflwynodd Plaid Cymru ar gyfer y Ddadl Plaid Leiafrifol. Fe'i gwnaed, yn hytrach, mewn ymateb i

ddatblygiadau diweddar yn y pwnc. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau fonitro'n ofalus unrhyw welliannau a gyflwynir i gynigion er mwyn barnu p'un a fyddai angen gwelliannau pellach ai peidio.

Busnes a gynigiwyd ar gyfer yr wythnosau yn cychwyn ar Fai 8fed, 15fed ac 22ain 2001

7.6 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC140-01).

7.7 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar fusnes y Cynulliad yn ystod yr wythnosau yn cychwyn ar 8, 15 a 22 Mai oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft.

8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

Dim

9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC142-01 ar y nodyn esboniadol i gefnogi'r cynnig i ddiwygio Adran 3 Rheol Sefydlog 23. Cytunwyd y dylid ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer gweithdrefn weithredol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a wnaed o dan yr adran honno, hyd 30 Mehefin 2001. Roeddynt hefyd yn cadw mewn cof y ffaith y gallai fod angen ymestyn y ddarpariaeth i ddyddiad diweddarach, rywbryd yn y dyfodol.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

10. Penderfyniadau'r Llywydd

Dim.

11. Unrhyw fater arall

YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR